Ysgol Gymraeg Aberystwyth

# FFURFLEN CAIS AM WYLIAU

***Pwysig** - Darllenwch

**Gwyliau Teuluol a Gymerir Adeg Tymor**

Fel arfer, ni ddylai rhieni/gwarcheidwaid gymryd disgyblion ar wyliau adeg tymor, a pholisi Awdurdod Addysg Lleol Ceredigion yw eu hannog i beidio â gwneud hyn. Yn ôl Rheoliadau Presenoldeb Ysgol (Cofrestru Disgyblion) 1995, mae gan ysgolion hawl ddewisiol i ganiatáu gwyliau teuluol blynyddol adeg tymor, ar yr amod fod yna amgylchiadau arbennig ar gyfer y cais, a bod y cais wedi'i gyflwyno ymlaen llaw gan y rhiant/gwarcheidwad sy'n preswylio gyda'r plentyn fel arfer. Dim ond y pennaeth all ganiatáu'r absenoldeb hon ond peidiwch â disgwyl i'r pennaeth dderbyn eich cais yn awtomatig. Hefyd, nodwch mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellir caniatáu absenoldeb o fwy na 10 niwrnod ysgol o fewn unrhyw flwyddyn ysgol.

Bydd y pennaeth yn ystyried pob cais am absenoldeb gwyliau yn ofalus iawn gan gymryd i ystyriaeth oedran y disgybl, amserau'r gwyliau a hanes presenoldeb y disgybl. Yna, gwneir penderfyniad a ddylid rhoi caniatád neu beidio. Os cymer y rhieni eu plentyn i ffwrdd ar wyliau heb ganiatád cytunedig y pennaeth, yna bydd yr absenoldebau hyn yn rhai anawdurdodedig a chant eu hadrodd yn ôl i'r Awdurdod Addysg Lleol.

Petai'r ysgol yn caniatáu gwyliau adeg tymor, byddwn yn gofyn ichi drafod ffyrdd gyda'r pennaeth o gynorthwyo'ch plentyn i ddal i fyny â'r oriau addysg a gollwyd (50 awr ar gyfer gwyliau 10 niwrnod).

**Bydd y Pennaeth yn ystyried (i) oedran y plentyn, (ii) patrwm presenoldeb cyffredinol y plentyn a (iii) amser y flwyddyn wrth wneud penderfyniad ynglŷn â'ch cais.**

**Os na roddir caniatâd i fod yn yn absennol, a bod y disgybl yn parhau i fynd ar wyliau, yna cofnodir yr absenoldeb hwnnw fel un anawdurdodedig. Os ceir cyfres o absenoldebau anawdurdodedig, fe'u hadroddir i'r AALl a gallai hynny arwain at achos cyfreithiol.**

Enw'r disgybl : ________________________________________________

Cyfeiriad : ________________________________________________________________________________

________________________________________________________________________________

Dyddiad Geni : ______________________

Dyddiadau'r cais am absenoldeb gyda chaniatâd : ___________________________________________

Arwyddwyd : ___________________________ Dyddiad : _____________________

| | |
|---|---|
| Rhoddwyd caniantâd | |
| Gwrthodwyd caniatâd | |

Llofnod y Pennaeth : ___________________________________